

Adroddiad Ymchwil

Arolwg o farn y cyhoedd ar
gymwysterau nad ydynt yn
raddau yng Nghymru 2021



Paratowyd ar gyfer:
Cymwysterau Cymru

Paratowyd gan:
Beaufort Research



Manylion Cyswllt

Cyswllt yr asiantaeth: Fiona McAllister

Prosiect: B02110-3

Dyddiad: Ionawr 2022

Beaufort Research

2 Plas yr Amgueddfa
Caerdydd
CF10 3BG

Ffôn: (029) 2037 8565

Ffacs: (029) 2037 0600

E-bost: enquiries@beaufortresearch.co.uk

www.beaufortresearch.co.uk

Telerau Contract

Oni chytunir fel arall, mae canfyddiadau'r astudiaeth hon yn parhau i fod yn hawlfraint Beaufort Research Ltd ac ni cheir eu dyfynnu, eu cyhoeddi na'u hatgynhyrchu heb gymeradwyaeth y cwmni ymlaen llaw.

Dim ond ar sail anghywirdeb neu gamliwio y gwrthodir cymeradwyaeth i ddyfynnu neu gyhoeddi.

Rhaid i unrhyw gyhoeddiad cymeradwy nodi: Beaufort Research Ltd fel darparwr, maint sampl a dyddiadau maes.

© Beaufort Research Ltd 2022



Cynnwys

Crynodeb gweithredol.....	4
1. Cefndir, amcanion yr ymchwil a dull ymchwilio.....	6
1.1 Cefndir ac amcanion	6
1.2 Methodoleg	7
2. Canfyddiadau allweddol	9
2.1 Hyder y cyhoedd mewn cymwysterau UG a Safon Uwch.....	9
2.2 Hyder y cyhoedd mewn cymwysterau TGAU.....	13
2.3 Bod yn gyfarwydd â Bagloriaeth Cymru a hyder ynddi.....	17
2.4 Hyder y cyhoedd mewn cymwysterau galwedigaethol.....	19
Atodiad I	22

Crynodeb gweithredol

Cyflwyniad

Mae Cymwysterau Cymru wedi comisiynu Beaufort Research i gynnal arolwg blynyddol o'r cyhoedd yng Nghymru i fesur hyder y cyhoedd mewn cymwysterau nad ydynt yn raddau yng Nghymru ac yn y system gymwysterau. Mae'r adroddiad hwn yn darparu canlyniadau ar gyfer arolwg 2021, yn dilyn arolygon cynharach a gynhaliwyd rhwng 2017 a 2020¹. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, cynhaliwyd yr ymchwil ar arolwg Omnibws Cymru Beaufort ym mis Medi, sy'n cyfweld sampl cynrychioliadol o 1,000 o oedolion o Gymru. Hyd at ddechrau 2020 cynhaliwyd cyfweiliadau Omnibws Cymru wyneb yn wyneb drwy CAPI (Cyfweiliadau Personol gyda Chymorth Cyfrifiaduron). O ganlyniad i argyfwng iechyd cyhoeddus COVID-19, newidiodd y cyfweiliadau i ddull ar-lein, gan ddefnyddio plattform cyfnewid panel ar-lein Cint™. Felly, cynhaliwyd cyfweiliadau ar gyfer arolygon hyder y cyhoedd 2020 a 2021 ar-lein.

Cynhaliwyd gwaith maes rhwng 13 Medi a 3 Hydref 2021. Roedd yr holiadur ar gyfer arolwg Cymwysterau Cymru yn cynnwys cyfres o gwestiynau am gymwysterau, yn bennaf yn defnyddio Graddfa Likert 5-pwynt gydag opsiwn ymateb 'ddim yn gwybod' ychwanegol. Roedd yr holiadur yn gyson ag arolygon cynharach i olrhain newidiadau dros amser ond gallai'r newid yn y dull casglu data o 2020 fod wedi arwain at rai gwahaniaethau yn y canfyddiadau.

Crynodeb a chasgliadau

Roedd hyder y cyhoedd mewn cymwysterau UG/Safon Uwch yn uchel ar y cyfan, fel mewn blynyddoedd blaenorol, gyda sgôr gyfansawdd o hyder o 3.70 allan o 5 mewn cymwysterau UG/Safon Uwch. Roedd hyn ychydig yn uwch na sgôr 2020 (3.66) ond nid yw'r gwahaniaeth o flwyddyn i flwyddyn yn ystadegol arwyddocaol. Roedd y cyhoedd o'r farn bod cymwysterau UG/Safon Uwch yn gymwysterau dibynadwy a'u bod yn ffordd dda o baratoi ar gyfer astudio ymhellach. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, roedd rhywfaint o anghytuno ynghylch a oedd cymwysterau UG/Safon Uwch yn ffordd dda o baratoi ar gyfer gwaith a pha mor dda roedd pobl yn deall y cymwysterau (roedd tua un o bob pump yn anghytuno â'r datganiad cyntaf ac un o bob chwech yn anghytuno â'r ail). Nid oedd bron i bedwar o bob deg o'r cyhoedd yn gallu rhoi sylwadau ynghylch a oedd marcio

¹ Mae'r adroddiadau hyn i'w gweld ar [dudalen we](#) cyhoeddiadau Cymwysterau Cymru.

cymwysterau UG/Safon Uwch yn gywir, ac ni allai bron i dri o bob deg roi barn a oedd safonau'n cael eu cynnal o flwyddyn i flwyddyn.

Roedd sgôr gyfansawdd o hyder y cyhoedd ar gyfer cymwysterau TGAU yn 2021 (3.83) yn sylweddol uwch na'r sgôr cyfansawdd ar gyfer UG/Safon Uwch (sef 3.70) ac mae'n gynydd sylweddol o'i lefel yn 2020, sef 3.74. Roedd canfyddiadau'r cyhoedd o gymwysterau TGAU yn debyg ar y cyfan i ganfyddiadau cymwysterau UG/Safon Uwch, gyda'r gymeradwyaeth gryfaf i gymwysterau TGAU am eu bod yn 'gymwysterau dibynadwy', bod 'gan bobl ddealltwriaeth dda' ohonyn nhw a'u bod 'yn ffordd dda o baratoi ar gyfer astudio ymhellach'. Fodd bynnag, ystyriwyd bod cymwysterau TGAU yn gymwysterau a gaiff eu deall yn well na chymwysterau UG/Safon Uwch (dim ond 5% oedd yn anghytuno yn 2021 bod gan bobl ddealltwriaeth dda ohonyn nhw, o gymharu ag 16% yn achos UG/Safon Uwch). Fel yn achos UG/Safon Uwch, roedd cyfran sylweddol o'r cyhoedd (24%) yn anghytuno bod TGAU yn ffordd dda o baratoi ar gyfer gwaith, ac roedd cyfran yr un mor uchel o'r cyhoedd yn methu gwneud sylwadau ynghylch a yw marcio TGAU yn gywir (31%).

Cynyddodd lefelau cytuno gyda'r rhan fwyaf o ddatganiadau hyder ar gyfer UG/Safon Uwch a TGAU yn 2021, ar ôl gostwng yn ôl yn 2020. Yn 2020 cynyddodd cyfran yr ymatebwyr i'r arolwg a atebodd 'ddim yn cytuno nac yn anghytuno', yn ôl pob tebyg oherwydd y newid yn y dull i arolwg ar-lein hunan-gwblhau. Felly, mae'r canlyniadau ar gyfer y rhan fwyaf o ddimensiynau hyder bellach ar lefel debyg i'r rhai a welwyd yn 2019. Roedd y cynnydd mwyaf o flwyddyn i flwyddyn yn 2021 ar gyfer UG/Safon Uwch a TGAU yn amlwg am fod yn 'gymwysterau dibynadwy'.

Mae ymwybyddiaeth o gymhwyster Bagloriaeth Cymru wedi parhau i godi ymhlith y cyhoedd, gyda bron i wyth o bob deg oedolyn yng Nghymru yn dweud eu bod wedi clywed amdano yn 2021 (gan gynyddu o tua saith o bob deg yn 2020 a chwech o bob deg yn 2019). Mae bod yn gyfarwydd â'r cymhwyster yn parhau'n isel y tu allan i'r grŵp oedran ieuengaf, fodd bynnag – roedd y rhan fwyaf o'r rhai a oedd wedi clywed amdano naill ai'n gwybod dim byd neu fawr ddim amdano. Roedd canfyddiadau ynghylch gwerth elfen Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru yn gadarnhaol, fel mewn arolygon tracio cynharach, ac roedd cytundeb â'r datganiad 'Mae'r gallu i astudio ar gyfer Tystysgrif Her Sgiliau yn werthfawr i ddyfodol pobl ifanc' wedi cynyddu ychydig o flwyddyn i flwyddyn i 68%, ond nid yw'r cynnydd yn ystadegol arwyddocaol.

Roedd canfyddiadau o gymwysterau galwedigaethol yng Nghymru yn 2021 yn gadarnhaol, gyda lefelau uchel yn cymeradwyo eu gwerth ar gyfer dyfodol pobl ifanc yn gyffredinol, ac o gymharu â chymwysterau Safon Uwch. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, roedd canfyddiadau o werth cymwysterau galwedigaethol yn llawer mwy cadarnhaol na'r farn am werth Bagloriaeth Cymru. Efallai y gellid priodoli hyn i'r ffaith fod pobl yn deall cymwysterau galwedigaethol yn fwy a'u bod yn fwy cyfarwydd â nhw na Bagloriaeth Cymru.

1. Cefndir, amcanion yr ymchwil a dull ymchwilo

1.1 Cefndir ac amcanion

Sefydlwyd Cymwysterau Cymru drwy Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015 fel rheoleiddiwr cymwysterau nad ydynt yn raddau a'r system gymwysterau yng Nghymru. Mae'n Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, sy'n annibynnol i'r llywodraeth, ac yn atebol i Senedd Cymru.

Yn y Ddeddf, un o ddau brif nod Cymwysterau Cymru yw cynyddu hyder y cyhoedd mewn cymwysterau a'r system gymwysterau yng Nghymru. O 2017 ymlaen, mae Beaufort Research wedi'i gytundebu i gynnal arolwg o'r cyhoedd yng Nghymru, er mwyn mesur hyder y cyhoedd mewn cymwysterau nad ydynt yn raddau yng Nghymru. Mae'r adroddiad hwn yn darparu canlyniadau o don ddiweddaraf yr arolwg yn 2021.

Diben cyffredinol yr ymchwil yw mesur hyder y cyhoedd mewn cymwysterau nad ydynt yn raddau yng Nghymru ac yn y system gymwysterau ac olrhain agweddau dros amser.

Fel ym mlwyddyn ysgol 2019-20, amharwyd yn ddifrifol ar addysg yng Nghymru yn 2020-21 oherwydd pandemig COVID-19. Caewyd ysgolion yn ystod y cyfnod clo cenedlaethol ar ddechrau 2021, gyda'r rhan fwyaf o'r dysgu'n cael ei wneud ar-lein, ac arholiadau cyhoeddus yn haf 2021 yn cael eu canslo. Dyfarnwyd cymwysterau a fyddai wedi'u sefyll fel arholiadau yn nhymor yr haf 2020/21 drwy fodel graddau a bennir gan y ganolfan. Pennwyd graddau gan ysgolion a cholegau, yn seiliedig ar eu hasesiad o waith dysgwyr gan ddefnyddio amrywiaeth o dystiolaeth, gan gynnwys asesiadau di-arholiad, ffug arholiadau a gwaith dosbarth.

1.2 Methodoleg

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, cynhaliwyd ymchwil 2021 gan ddefnyddio arolwg Omnibws Cymru Beaufort ym mis Medi. Mae arolwg Omnibws Cymru yn cyfweld â sampl gwota gynrychioliadol o oedolion 16 oed a hŷn ledled Cymru.

Hyd at ddechrau 2020, cynhaliwyd cyfweiliadau Omnibws Cymru wyneb yn wyneb drwy CAPI (Cyfweiliadau Personol gyda Chymorth Cyfrifiaduron). O ganlyniad i argyfwng iechyd cyhoeddus COVID-19, newidiodd y cyfweiliadau i ddull ar-lein, gan ddefnyddio plattfform cyfnewid panel ar-lein Cint™. Felly newidiodd y fethodoleg ar gyfer arolwg hyder y cyhoedd 2020 i un ar-lein ac mae wedi aros ar-lein ar gyfer arolwg 2021. Efallai bod y newid yn y dull casglu data wedi arwain at rai newidiadau yn y canfyddiadau, oherwydd effaith modd, ac amlygir y rhain lle bo hynny'n berthnasol yn yr adroddiad.

Mae plattfform Cint™ a'i gynhyrchion yn cydymffurfio â safonau ESOMAR, MRS, ARF, MRIA, AMA, AMSRO ac Insights Association. Mae Cint™ hefyd yn cydymffurfio ag ISO 20252. Mae gwiriadau ansawdd data lluosog wedi'u hymgorffori yn system Cint™ gan gynnwys gwiriad GEO IP a CAPTCHA wrth gofrestru, dull adnabod ymatebwyr unigryw a gwiriadau ymddygiad twyllodrus. Ar ben hyn i gyd, mae Beaufort yn cynnwys ei gwestiynau a'i fesurau rheoli ansawdd ei hun yn yr arolwg ac yn eithrio ymatebwyr sy'n methu'r gwiriadau hyn.

Roedd yr arolwg yn destun i gydgloi rheolaethau cwota demograffig oedran o fewn rhyw. Gosodwyd rheolaeth cwota ar wahân arall ar radd gymdeithasol a chwblhawyd holiaduron gan drigolion pob awdurdod lleol yng Nghymru. Yn ystod y cam dadansoddi, cafodd y data ei bwysoli yn ôl grŵp oedran, rhyw, grwpio awdurdodau lleol a gradd gymdeithasol i gyd-fynd â ffigurau Cyfrifiad 2011 ac i sicrhau ei fod yn gynrychioliadol o boblogaeth Cymru.

Roedd yr holiadur ar gyfer arolwg Cymwysterau Cymru yn cynnwys cyfres o gwestiynau am gymwysterau, yn bennaf yn defnyddio Graddfa Likert 5-pwynt gydag opsiwn ymateb 'ddim yn gwybod' ychwanegol (gweler Atodiad I). At ddibenion olrhain, roedd holiadur 2021 yn gyson â'r hyn a ddefnyddiwyd mewn blynyddoedd blaenorol. Mae cwestiynau demograffig hefyd wedi'u cynnwys yn ôl yr arfer yn arolwg Omnibws Cymru. Roedd yr holiadur ar gael yn Gymraeg neu yn Saesneg yn ôl dewis y cyfranogwr.

Cafodd 1,000 o oedolion eu cyfweld ar-lein rhwng 13 Medi a 3 Hydref 2021, a dewisodd 17 ohonynt ateb yn Gymraeg.

Gwallau ystadegol

Fel gydag unrhyw arolwg, mae'r canfyddiadau ar gyfer y sampl o ymatebwyr a gyfwelwyd yn amcangyfrif agweddau, gwybodaeth a barn y boblogaeth sydd o ddiddordeb (yn yr achos hwn, y cyhoedd). O ganlyniad, gall yr holl ganlyniadau gynnwys gwallau samplu.

Mae Tabl 1 yn dangos pa mor ddibynadwy yw'r canlyniadau unigol ar gyfer gwahanol feintiau sampl a chanlyniadau canrannol ar lefel hyder o 95%. Er enghraifft, wrth feddwl am y sampl gyffredinol o 1,000 o ymatebwyr a gyfwelwyd, os dywedodd 50% ohonynt eu bod yn gwybod cryn dipyn am Fagloriaeth Cymru, gallem ddweud bod y gwir gyfran rhwng 46.9% a 53.1% (h.y. +/- 3.1%) 95% o'r amser. Dylid defnyddio'r cyfyngau hyder a nodwyd fel canllaw bras, o gofio bod yr arolwg hwn yn seiliedig ar waith samplu cwota.

Tabl 1: Dibynadwyedd ystadegol (ar lefel hyder o 95%)

Amrediadau ar lefel hyder o 95% (ac eithrio ffactorau sy'n ymwneud â chynllun yr arolwg)			
Canlyniad yr arolwg	50%	70% / 30%	90% / 10%
Maint y sampl:			
1,000	+/-3.1	+/-2.8	+/-1.9
750	+/-3.6	+/-3.3	+/-2.2
500	+/-4.4	+/-4.0	+/-2.6
200	+/-6.9	+/-6.4	+/-4.2
100	+/-9.8	+/-9.0	+/-5.9

Pan ddywedir bod gwahaniaethau yn y data yn yr adroddiad hwn yn arwyddocaol, mae hyn yn cyfeirio at ganlyniad ystadegol arwyddocaol o brawf arwyddocâd ar y lefel 0.05.

2. Canfyddiadau allweddol

2.1 Hyder y cyhoedd mewn cymwysterau UG a Safon Uwch

Roedd y set gyntaf o gwestiynau yn canolbwyntio ar gymwysterau UG a Safon Uwch ac roeddem yn gofyn i gyfranogwyr i ba raddau roeddent yn cytuno neu'n anghytuno â chyfres o ddatganiadau am y cymwysterau hyn. Gallai'r ymatebwyr ddweud eu bod yn cytuno'n gryf, yn cytuno, ddim yn cytuno nac yn anghytuno, yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â phob un o'r datganiadau. Gan fod yr arolwg wedi'i gynnal ar-lein, dangoswyd yr opsiwn ymateb 'ddim yn gwybod' yn y rhestr ysgogiadau. Rhoddwyd esboniad byr o gymwysterau UG a Safon Uwch i'r cyfranogwyr cyn y cwestiwn. Yn yr adroddiad mae 'cytuno' wedi'i ddiffinio fel cyfuniad o 'cytuno'n gryf' a 'cytuno' tra bod 'anghytuno' yn gyfuniad o 'anghytuno'n gryf' ac 'anghytuno'.

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, roedd cytundeb uchel bod 'cymwysterau UG/Safon Uwch yn gymwysterau dibynadwy' a bod 'cymwysterau UG/Safon Uwch yn ffordd dda o baratoi ar gyfer astudio ymhellach', gyda 78% o oedolion yng Nghymru yn cytuno â phob datganiad, a dim ond 4% a 5% yn anghytuno yn y drefn honno (gweler ffigur 1, trosodd). Mae lefelau cytundeb gyda phob datganiad wedi codi o 2019 (o lefelau o 70% a 75%) ac maent bellach yn agosach at y lefelau a welwyd yn 2018 (80% ac 82%).


Roedd tua chwech o bob deg o'r rhai a gyfwelwyd yn cytuno bod 'gan bobl ddealltwriaeth dda o gymwysterau UG/Safon Uwch' a'u bod yn 'datblygu amrywiaeth eang o sgiliau i fyfyrwyr', tra bod tua hanner y sampl yn cytuno bod 'safonau'n cael eu cynnal o flwyddyn i flwyddyn' a'u bod yn 'ffordd dda o baratoi ar gyfer gwaith'. Roedd y cytundeb isaf yn amlwg ar gyfer y datganiad bod 'gwaith marcio Cymwysterau UG/Safon Uwch yn gywir', gyda 44% yn cytuno â'r datganiad hwn.

Fel mewn blynyddoedd blaenorol roedd anghytundeb ar ei uchaf gyda'r datganiad 'Mae cymwysterau UG/Safon Uwch yn ffordd dda o baratoi ar gyfer gwaith', sef 21% o'r rhai a gyfwelwyd - ychydig yn uwch nag yn 2020 ond yn dal yn is nag yn 2019. Roedd anghytundeb hefyd ychydig yn uwch yn 2021 bod 'cymwysterau UG/Safon Uwch yn datblygu amrywiaeth eang o sgiliau i fyfyrwyr'.

Gostyngodd cyfran y boblogaeth na allent wneud sylwadau ynghylch a yw 'marcio cymwysterau UG/Safon Uwch yn gywir' ac a yw 'safonau cymwysterau

UG/Safon Uwch yn cael eu cynnal o flwyddyn i flwyddyn' yn 2021 i'r lefelau isaf a welwyd (10% a 7% yn y drefn honno). Ar yr un pryd, mae cyfran yr ymatebwyr ar ganol y raddfa (hynny yw, yn ateb 'ddim yn cytuno nac yn anghytuno') yn parhau'n uchel ar gyfer y dimensiynau hyn (ar 35% a 28%). Cynyddodd cyfran yr ymatebwyr a atebodd 'ddim yn cytuno nac yn anghytuno' ar gyfer pob datganiad yn 2020 pan newidiodd dull yr arolwg i gyfweiliad hunan-gwblhau ar-lein.

Mae hyn yn debygol o fod yn gysylltiedig â'r newid yn y dull, oherwydd mae presenoldeb cyfwelydd yn newid deinameg y cyfweiliad. Mewn arolygon hunan-gwblhau, mae ymatebwyr yn fwy parod i roi ateb niwtral ac i gyfaddef nad ydynt yn gwybod llawer am y pwnc y maent yn cael eu holi yn ei gylch.



Fel mewn blynyddoedd blaenorol, roedd pobl yn y graddau economaidd-gymdeithasol ABC1² yn sylweddol fwy tebygol o gytuno â'r rhan fwyaf o'r datganiadau am gymwysterau UG/Safon Uwch na'r rhai o raddau economaidd-gymdeithasol C2DE. Er enghraifft, roedd 64% o raddau ABC1 yn cytuno bod 'gan bobl ddealltwriaeth dda o gymwysterau UG/Safon Uwch' o gymharu â 50% o'r rheini o grwpiau economaidd-gymdeithasol C2DE.

Yn wahanol i'r sefyllfa mewn blynyddoedd blaenorol, prin oedd y gwahaniaethau sylweddol mewn barn rhwng grwpiau oedran. Fodd bynnag, roedd pobl iau 16-34 oed yn llawer llai tebygol na'r rhai 35-54 oed a'r rhai 55+ oed o ystyried cymwysterau UG/Safon Uwch fel 'ffordd dda o baratoi ar gyfer astudio ymhellach'. Roeddent hefyd yn llawer mwy tebygol o *anghytuno* eu bod yn 'ffordd dda o baratoi ar gyfer gwaith' na phobl hŷn 55+ oed.

Cafodd sgoriau cymedrig neu gyfartaleddau eu cyfrifo hefyd ar gyfer pob un o'r datganiadau uchod gan ddefnyddio graddfa o 1 i 5, lle roedd 1 yn golygu 'anghytuno'n gryf' a lle roedd 5 yn golygu 'cytuno'n gryf'. Yn ogystal â'r mesurau unigol, mae mesur cyfansawdd o hyder wedi cael ei ddatblygu ar gyfer pob un o'r saith datganiad. Cyfrifwyd y mesur hwn drwy adio cyfartaleddau pob cwestiwn a phennu cyfartaledd cyffredinol.

Y sgôr gymedrig gyfansawdd o hyder ar gyfer cymwysterau UG/Safon Uwch ar gyfer 2021 yw 3.70 allan o 5, sydd ychydig yn uwch na sgôr 2020 (3.66). Dangosir sgorau cymedrig ar gyfer pob datganiad unigol yn ffigur 2 drosodd, ac maent yn amrywio o 3.41 ar y pen isaf (ar gyfer y datganiad eu bod yn 'ffordd dda o baratoi ar gyfer gwaith'), hyd at 4.07 (ar gyfer y datganiad bod cymwysterau UG/Safon Uwch yn 'gymwysterau dibynadwy').

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae gwahaniaeth sylweddol rhwng y sgorau cymedrig ar gyfer y datganiadau bod cymwysterau UG/Safon Uwch yn

² Caiff dosbarth economaidd-gymdeithasol unigolyn ei benderfynu drwy ddarganfod beth yw teitl ei swydd, a chaiff graddau gymdeithasol eu diffinio fel a ganlyn:


AB: Galwedigaethau rheoli, gweinyddol a phroffesiynol uwch neu ganolraddol

C1: Galwedigaethau goruchwyllo, clercol a rheoli, gweinyddol a phroffesiynol iau

C2: Gweithwyr llaw medrus


DE: Gweithwyr llaw lled-fedrus ac anfedrus, y rhai sy'n cael pensiwn y wladwriaeth, gweithwyr achlysurol a gradd isaf, pobl ddi-waith sy'n cael budd-daliadau gan y wladwriaeth yn unig

'gymwysterau dibynadwy' a'u bod yn 'ffordd dda o baratoi ar gyfer astudio ymhellach' â'r rhai ar gyfer pob dimensiwn arall.



Gan edrych ar dueddiadau ar draws y pum mlynedd o olrhain, mae'r arolwg diweddaraf yn dangos bod lefelau cytundeb wedi codi yn 2021 ar gyfer y rhan fwyaf o'r datganiadau ar ôl disgyn yn ôl yn 2020 (gweler ffigur 3 drosodd).

Mae'r cynnydd mwyaf o un flwyddyn i'r llall yn amlwg ar gyfer y datganiadau bod cymwysterau UG/Safon Uwch yn 'gymwysterau dibynadwy' (+8%), bod 'safonau'n cael eu cynnal o flwyddyn i flwyddyn' (+6%) a bod 'gan bobl ddealltwriaeth dda' ohonyn nhw (+5%). Mae cytundeb â'r datganiad bod safonau'n cael eu cynnal o flwyddyn i flwyddyn bellach ar ei lefel uchaf erioed.



2.2 Hyder y cyhoedd mewn cymwysterau TGAU

Yna, cyflwynwyd cyfres debyg o ddatganiadau am gymwysterau TGAU i ymatebwyr yr arolwg a gofynnwyd i ba raddau roeddent yn cytuno neu'n anghytuno â phob datganiad. Gallai'r ymatebwyr ddweud eu bod yn cytuno'n gryf, yn cytuno, ddim yn cytuno nac yn anghytuno, yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â phob un o'r datganiadau (roedd 'ddim yn gwybod' hefyd wedi'i gynnwys yn y rhestr o opsiynau ymateb). Rhoddwyd esboniad byr o gymwysterau TGAU cyn y cwestiwn.


Fel gyda chymwysterau UG/Safon Uwch, roedd poblogaeth Cymru yn gryf o'r farn fod cymwysterau TGAU 'yn gymwysterau dibynadwy' a'u bod 'yn ffordd dda o baratoi ar gyfer astudio ymhellach', gyda thua wyth o bob deg yn cytuno gyda phob un o'r datganiadau hyn a llai nag un o bob deuddeg yn anghytuno. Roedd cyfran llawer uwch o'r boblogaeth o'r farn bod 'gan bobl ddealltwriaeth dda o gymwysterau TGAU' nag yn achos UG/Safon Uwch, fodd bynnag - roedd 81% yn

cytuno bod hyn yn wir am gymwysterau TGAU o gymharu â 57% yn gwneud hynny ar gyfer UG/Safon Uwch.

Roedd tua saith o bob deg o'r rhai a gyfwelwyd yn 2021 yn cytuno bod 'cymwysterau TGAU yn datblygu amrywiaeth eang o sgiliau i fyfyrwyr' tra bod tua chwech o bob deg o'r farn fod 'safonau TGAU yn cael eu cynnal o flwyddyn i flwyddyn' (gweler ffigur 4 isod).

Roedd y cytundeb ar ei isaf ar gyfer y datganiad fod cymwysterau TGAU 'yn ffordd dda o baratoi ar gyfer gwaith' a bod 'gwaith marcio cymwysterau TGAU yn gywir' (50% yn cytuno â phob datganiad). Mae'r gymeradwyaeth i'r olaf wedi codi o lefel 2020 (46%), tra bod y cyntaf wedi gostwng o flwyddyn i flwyddyn (o 54%).

Yn gyson â chanlyniadau'r blynyddoedd blaenorol ac yn debyg i'r canfyddiadau ar gyfer cymwysterau UG/Safon Uwch, roedd lleiafrif sylweddol o bron i un o bob pedwar (24%) yn anghytuno bod cymwysterau TGAU yn 'ffordd dda o baratoi ar gyfer gwaith'.



Roedd ymatebwyr yn y graddau economaidd-gymdeithasol ABC1 yn llawer mwy tebygol o gytuno bod 'gan bobl ddealltwriaeth dda o gymwysterau TGAU' a'u bod 'yn gymwysterau dibynadwy' na'r rheini yn y grwpiau C2DE. Roedd 85% o ABC1 yn cytuno â'r ddau ddatganiad o gymharu â 77% ac 80% o C2DE.

Ar rai dimensiynau roedd pobl iau yn fwy negyddol am TGAU na'u cymheiriaid hŷn. Er enghraifft, roedd pobl ifanc 16-34 oed yn llawer llai tebygol na phobl 35-54 oed o gytuno bod 'gan bobl ddealltwriaeth dda o gymwysterau TGAU' (75% o gymharu ag 85%), eu bod 'yn gymwysterau dibynadwy' (78% o gymharu ag 85%) a'u bod 'yn ffordd dda o baratoi ar gyfer astudio ymehllach' (71% o gymharu â 79%). Roedden nhw hefyd yn llawer llai tebygol na'r rhai 55 oed a hŷn o gytuno eu bod yn 'ffordd dda o baratoi ar gyfer gwaith' (41% o gymharu â 58%).


Ychydig o wahaniaethau ystadegol arwyddocaol oedd yn amlwg yn ôl rhyw, er bod menywod lawer mwy tebygol na dynion o gytuno bod TGAU 'yn ffordd dda o baratoi ar gyfer gwaith' a'u bod 'yn gymwysterau dibynadwy', fel mewn blynyddoedd blaenorol.

Fel gyda'r datganiadau am gymwysterau UG/Safon Uwch, cyfrifwyd sgorau cyfartalog ar gyfer pob un o'r datganiadau am gymwysterau TGAU. Defnyddiwyd yr un raddfa o 1 i 5, lle roedd 1 yn golygu 'anghytuno'n gryf' a 5 yn golygu 'cytuno'n gryf'. Cyfrifwyd mesur cyfansawdd o hyder hefyd ar gyfer pob un o'r saith datganiad, drwy adio cyfartaleddau pob cwestiwn a phennu cyfartaledd cyffredinol.

Y sgôr gymedrig gyfansawdd o hyder ar gyfer cymwysterau TGAU ar gyfer 2021 yw 3.83 allan o 5. Yn yr un modd â'r sgôr gyfansawdd ar gyfer UG/Safon Uwch, mae hyn wedi codi o'i lefel yn 2020 (3.74) ac yn achos TGAU, mae'n gynydd sylweddol o un flwyddyn i'r llall. At hynny, mae sgôr gymedrig gyfansawdd cymwysterau TGAU 2021 (3.83) yn sylweddol uwch na'r sgôr gyfansawdd gyfatebol ar gyfer UG/Safon Uwch (3.70).


Dangosir sgorau cymedrig ar gyfer pob datganiad unigol yn ffigur 5 drosodd, ac maent yn amrywio o 3.40 ar y pen isaf (ar gyfer y datganiad fod cymwysterau TGAU yn 'ffordd dda o baratoi ar gyfer gwaith'), hyd at 4.14 (ar gyfer y datganiad fod cymwysterau TGAU yn 'gymwysterau dibynadwy'). Fel mewn blynyddoedd blaenorol, rhoddwyd sgôr sylweddol uwch ar gyfer y datganiad fod 'gan bobl ddealltwriaeth dda' o gymwysterau TGAU nag ar gyfer UG/Safon Uwch (4.10 yn achos TGAU, o'i gymharu â 3.57 ar gyfer UG/Safon Uwch).

Roedd y sgorau cymedrig ar y datganiad bod cymwysterau TGAU 'yn gymwysterau dibynadwy', bod 'gan bobl ddealltwriaeth dda' ohonyn nhw a'u bod 'yn ffordd dda o baratoi ar gyfer astudio ymhellach' yn sylweddol uwch na'r rhai ar gyfer pob datganiad arall am y cymhwyster. Roedd hyn hefyd yn wir yn achos dau o'r tri dimensiwn ar gyfer UG/Safon Uwch.



Yn yr un modd â chymwysterau UG/Safon Uwch, mae lefelau cytundeb ar gyfer bron pob datganiad TGAU wedi cynyddu yn 2021 o'u cymharu â 2020 (gweler ffigur 6 drosodd). Mae'r cynnydd mwyaf yn amlwg ar gyfer y datganiadau fod 'gan bobl ddealltwriaeth dda o gymwysterau TGAU' (+10% o flwyddyn i flwyddyn), bod cymwysterau TGAU 'yn gymwysterau dibynadwy' (+6%) a bod 'safonau cymwysterau TGAU yn cael eu cynnal o flwyddyn i flwyddyn' (+5%) .

Mae cytundeb â'r datganiadau fod 'gan bobl ddealltwriaeth dda o gymwysterau TGAU' a bod 'safonau cymwysterau TGAU yn cael eu cynnal o flwyddyn i flwyddyn' ar eu lefel uchaf erioed yn 2021. Ar yr un pryd, mae cytundeb fod 'cymwysterau TGAU yn ffordd dda o baratoi ar gyfer gwaith' wedi gostwng ers 2020 (o 54% i 50%) ac mae bellach ar ei lefel isaf ers dechrau olrhain.



2.3 Bod yn gyfarwydd â Bagloriaeth Cymru a hyder ynddi


Fel mewn blynyddoedd blaenorol, gofynnwyd i ymatebwyr am eu hymwybyddiaeth o Fagloriaeth Cymru a pha mor ymwybodol oedden nhw ohoni. Dywedodd bron i wyth o bob deg (79%) o oedolion Cymru a gyfwelwyd yn 2021 eu bod wedi clywed am y cymhwyster, cynnydd o 10% o lefel ymwybyddiaeth 2020 o 69%.

O edrych ar y canfyddiadau ymhlith gwahanol grwpiau demograffig, roedd ymwybyddiaeth o Fagloriaeth Cymru ar ei uchaf ymhlith pobl ifanc 16-24 oed a'r rhai yng ngrwpiau economaidd-gymdeithasol AB (87% ymhlith pob un). Pobl ifanc oedd fwyaf tebygol o fod yn fwyaf cyfarwydd â'r cymhwyster hefyd, gyda 29% o bobl ifanc 16-24 oed yn dweud eu bod yn gwybod 'llawer iawn' amdano, o gymharu â dim ond 8% yn gyffredinol yn dweud hyn.

Fodd bynnag, *nid* oedd un o bob pump o oedolion yng Nghymru a gyfwelwyd (20%) wedi clywed am Fagloriaeth Cymru. Y rhai lleiaf tebygol o fod wedi clywed am y cymhwyster oedd pobl 65+ oed, y rhai yn y graddau economaidd-

gymdeithasol DE a'r rhai heb unrhyw gymwysterau (gyda 26%, 24% a 55% o'r grwpiau hyn heb glywed amdano cyn cael eu cyfweld).

Er bod ymwybyddiaeth o'r cymhwyster wedi codi eto yn 2021, nid yw'n ymddangos bod unrhyw gynnydd mewn cynefindra na gwybodaeth am ei gynnwys. Dywedodd dros hanner y rhai a gyfwelwyd (55% i gyd) eu bod wedi clywed am Fagloriaeth Cymru ond nad oeddent yn gwybod naill ai dim byd neu ychydig yn unig amdani. Roedd cyfanswm o 24% yn teimlo eu bod yn gwybod cryn dipyn neu lawer am y cymhwyster (cynnydd o'r 20% a ddywedodd hyn yn 2020).




Yna, dangoswyd esboniad o Fagloriaeth Cymru a'r Dystysgrif Her Sgiliau cyn gofyn i'r ymatebwyr a oeddent yn cytuno neu'n anghytuno bod y gallu i astudio ar gyfer Tystysgrif Her Sgiliau yn werthfawr i ddyfodol pobl ifanc. Defnyddiwyd yr un raddfa 5-pwynt ag ar gyfer y datganiadau am gymwysterau UG/Safon Uwch a TGAU yn gynharach yn y cyfweiliad, ynghyd ag ymateb 'ddim yn gwybod'.

Mae'r cytundeb bod 'y gallu i astudio ar gyfer Tystysgrif Her Sgiliau yn werthfawr i ddyfodol pobl ifanc' wedi codi i 68%, o 64% yn 2020, ond mae'n dal i fod yn is

na'r lefelau a welwyd yn 2019 a 2018. Fel yn 2020, mae hyn oherwydd bod cyfrannau uwch o bobl nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno â'r datganiad nag yn y blynyddoedd hynny, yn hytrach nag unrhyw newid mawr yn lefel yr anghytuno o flwyddyn i flwyddyn (gweler ffigur 8).

Mae'r sgôr gymedrig o 3.82 ar gyfer y datganiad hwn yn 2021 ychydig yn uwch na sgôr gymedrig 2020 (3.78), ond nid yw'r cynnydd yn ystadegol arwyddocaol.



2.4 Hyder y cyhoedd mewn cymwysterau galwedigaethol


Gofynnwyd i'r cyfranogwyr hefyd am eu barn ar gymwysterau galwedigaethol, sy'n cwmpasu amrywiaeth o bynciau cysylltiedig â gwaith sy'n cael eu hastudio mewn ysgolion neu golegau Addysg Bellach. Rhoddwyd dau ddatganiad gwahanol i ymatebwyr ynghylch cymwysterau galwedigaethol a gofynnwyd iddynt i ba raddau roeddent yn cytuno neu'n anghytuno â phob un.

Roedd wyth o bob deg oedolyn yng Nghymru yn cytuno bod 'cymwysterau galwedigaethol, a astudir yn yr ysgol, yn werthfawr i ddyfodol pobl ifanc', tra bod tua saith o bob deg yn cytuno bod 'ennill cymhwyster galwedigaethol yn lle cymwysterau Safon Uwch yn 18 oed o leiaf mor werthfawr ag ennill cymwysterau

Safon Uwch i ddyfodol pobl ifanc'. Roedd lefelau anghytuno â phob datganiad yn parhau'n isel – sef 2% ac 8% yn y drefn honno (gweler ffigurau 9 a 10).

Roedd y ffigurau hyn yn debyg iawn i'r rhai a welwyd yn 2020. Fel yn 2020, mae lefelau cytundeb yn is nag yn 2019 a 2018 oherwydd bod cyfran uwch o ymatebwyr ar bwynt canol y raddfa, yn hytrach nag unrhyw newid mawr mewn lefelau anghytuno (sy'n debygol o fod yn gysylltiedig â'r newid yn y dull cyfweld).


Roedd y sgorau cymedrig ar gyfer y datganiadau hyn ar gyfer 2021 bron yn ddigyfnewid ers 2020 (4.12 o gymharu â 4.10 a 3.90 o gymharu â 3.91 yn y drefn honno).



Ffigur 10: Hyder mewn cymwysterau galwedigaethol dros amser – II %

Cytuno/anghytuno â 'Mae cymwysterau galwedigaethol a astudir yn yr ysgol, yn werthfawr i ddyfodol pobl ifanc'

Sgôr gymedrig: cytuno'n gryf = 5, anghytuno'n gryf = 1



Sylfaen: pob ymatebydd (2021 – 1,000; 2020 – 1,000; 2019 – 1,000; 2018 – 1,015; 2017 - 1,008)

Noder: Cytuno – cyfuniad cytuno/cytuno'n gryf; Anghytuno – cyfuniad anghytuno/anghytuno'n gryf

Nid yw'r sylfaen ar gyfer sgoriau gymedrig yn cynnwys 'ddim yn gwybod/gwrthod' (mae maint sylfaen sgoriau gymedrig yn cael ei ddangos mewn cromfachau)

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, roedd canfyddiadau o werth cymwysterau galwedigaethol yn llawer mwy cadarnhaol na'r farn am werth Bagloriaeth Cymru. Mae gwahaniaeth sylweddol rhwng y sgôr gymedrig ar gyfer y datganiad 'Mae cymwysterau galwedigaethol, a astudir yn yr ysgol, yn werthfawr i ddyfodol pobl ifanc' â'r sgôr gymedrig ar gyfer datganiad tebyg am y Dystysgrif Her Sgiliau ('Mae'r gallu i astudio ar gyfer Tystysgrif Her Sgiliau yn werthfawr i ddyfodol pobl ifanc').

Atodiad I

Holiadur yr arolwg

**B02110_3 Omnibws Cymru mis Medi
Cwestiynau Cymwysterau Cymru 2021 - TERFYNOL**

GOFYN I BAWB

C1. Hoffem ofyn rhai cwestiynau i chi am eich barn ar gymwysterau mewn ysgolion uwchradd a cholegau yng Nghymru. I ddechrau, rhai cwestiynau am gymwysterau Safon Uwch ac UG.

Mae cymwysterau UG yn gymwysterau a gaiff eu cwblhau ar ddiwedd blwyddyn gyntaf y chweched dosbarth (blwyddyn 12) neu'r coleg. Mae canlyniad cymhwyster UG yn cyfrannu at radd y Safon Uwch yn ei chyfanrwydd. Mae cymwysterau Safon Uwch yn gymwysterau a gaiff eu cwblhau ar ddiwedd ail flwyddyn y chweched dosbarth (blwyddyn 13) neu'r coleg. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol am gymwysterau Safon Uwch / UG? Graddfa: cytuno'n gryf, cytuno, ddim yn cytuno nac yn anghytuno, yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf, ddim yn gwybod CAIFF Y DATGANIADAU EU TREFNU AR HAP

- i)** Mae gan bobl ddealltwriaeth dda o gymwysterau UG/Safon Uwch
- ii)** Mae cymwysterau UG/Safon Uwch yn gymwysterau dibynadwy
- iii)** Mae safonau cymwysterau UG/Safon Uwch yn cael eu cynnal o flwyddyn i flwyddyn
- iv)** Mae cymwysterau UG/Safon Uwch yn ffordd dda o baratoi ar gyfer astudio ymhellach
- v)** Mae cymwysterau UG/Safon Uwch yn ffordd dda o baratoi ar gyfer gwaith
- vi)** Mae cymwysterau UG/Safon Uwch yn datblygu amrywiaeth eang o sgiliau i fyfyrwyr
- vii)** Mae gwaith marcio UG/Safon Uwch yn gywir

GOFYN I BAWB

C2. Nawr rhai cwestiynau am gymwysterau TGAU. Cymwysterau TGAU yw'r prif gymwysterau y mae dysgwyr rhwng 15 a 16 oed yn eu cwblhau fel arfer ar ôl astudio am ddwy flynedd.

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol am gymwysterau TGAU? *Graddfa: cytuno'n gryf, cytuno, ddim yn cytuno nac yn anghytuno, yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf, ddim yn gwybod* CAIFF Y DATGANIADAU EU TREFNU AR HAP

- i) Mae gan bobl ddealltwriaeth dda o gymwysterau TGAU
- ii) Mae cymwysterau TGAU yn gymwysterau dibynadwy
- iii) Mae safonau cymwysterau TGAU yn cael eu cynnal o flwyddyn i flwyddyn
- iv) Mae cymwysterau TGAU yn ffordd dda o baratoi ar gyfer astudio ymhellach
- v) Mae cymwysterau TGAU yn ffordd dda o baratoi ar gyfer gwaith
- vi) Mae cymwysterau TGAU yn datblygu amrywiaeth eang o sgiliau i fyfyrwyr
- vii) Mae gwaith marcio cymwysterau TGAU yn gywir

GOFYN I BAWB

C3. Mae Bagloriaeth Cymru yn cael ei hastudio mewn ysgolion a cholegau. Faint, os o gwbl, ydych chi'n ei wybod am gymhwyster Bagloriaeth Cymru?

Llawer iawn

Cryn dipyn

Ychydig

Wedi clywed amdano ond ddim yn gwybod unrhyw beth amdano

Erioed wedi clywed amdano cyn heddiw

Ddim yn gwybod

GOFYN I BAWB

C4. Craidd cymhwyster Bagloriaeth Cymru yw'r Dystysgrif Her Sgiliau, sy'n gymhwyster annibynnol. Nod y Dystysgrif Her Sgiliau yw datblygu sgiliau bywyd a gwaith megis meddwl yn feirniadol, datrys problemau, cynllunio a threfnu.

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad canlynol am gymhwyster Bagloriaeth Cymru? *Graddfa: cytuno'n gryf, cytuno, ddim yn cytuno nac yn anghytuno, yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf, ddim yn gwybod*

- i) Mae'r gallu i astudio ar gyfer Tystysgrif Her Sgiliau yn werthfawr i ddyfodol pobl ifanc

GOFYN I BAWB

C5. Mae llawer o bobl ifanc yn astudio cymwysterau galwedigaethol mewn Colegau Addysg Bellach yn hytrach nag astudio cymwysterau Safon Uwch. Mae'r cymwysterau galwedigaethol hyn yn cwmpasu amrywiaeth o bynciau sy'n ymwneud â gwaith.

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad canlynol? *Graddfa: cytuno'n gryf, cytuno, ddim yn cytuno nac yn anghytuno, yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf, ddim yn gwybod*

- i) Mae ennill cymhwyster galwedigaethol yn lle cymwysterau Safon Uwch yn 18 oed o leiaf mor werthfawr ag ennill cymwysterau Safon Uwch i ddyfodol pobl ifanc

GOFYN I BAWB

C6. Mae rhai pobl ifanc mewn ysgolion yn astudio cymwysterau galwedigaethol ar y cyd â'u cymwysterau TGAU. Mae'r cymwysterau galwedigaethol hyn yn cwmpasu amrywiaeth o bynciau sy'n ymwneud â gwaith.

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol? *Graddfa: cytuno'n gryf, cytuno, ddim yn cytuno nac yn anghytuno, yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf, ddim yn gwybod*

- i) Mae cymwysterau galwedigaethol, a astudir yn yr ysgol, yn werthfawr i ddyfodol pobl ifanc

GOFYN I BAWB

C7. Ydych chi mewn addysg neu a oes gennych unrhyw blant y mae'r sefyllfaoedd canlynol yn berthnasol iddynt? *Ticiwch bob un sy'n berthnasol*

Oes – Mae gen i blentyn/plant yn yr ysgol gynradd

Oes – Mae gen i blentyn/plant yn yr ysgol uwchradd neu goleg chweched dosbarth

Oes – Mae gen i blentyn/plant yn y brifysgol neu'r coleg

Ydw – Rydw i yn yr ysgol uwchradd neu mewn coleg chweched dosbarth

Ydw – Rydw i yn y brifysgol neu'r coleg

Na

GOFYN I BAWB

C8. Gan ystyried chi eich hun nawr, beth yw safon uchaf eich cymhwyster addysgol? *Ticiwch un yn unig*

TGAU, Iefel O, Gradd O, Gradd Safonol neu debyg

Safon Uwch, Uwch yr Alban, Astudiaeth Chweched Dosbarth neu debyg

HNC neu HND

Gradd Sylfaen

Gradd Uwch

Dim cymwysterau

Mewn addysg o hyd

Arall

Ddim yn gwybod